

Centre of
expertise
on child
sexual abuse

Mae cymorth yn cyfrif 2

Y diweddraf am wasanaethau
cymorth cam-drin plant yn rhywiol
yng Nghymru a Lloegr
Crynodeb gweithredol

Diana Parkinson
a
Milly Steele

Mai 2025



Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i'r holl wasanaethau a gyfrannodd at yr ymchwil hon, gan roi o'u hamser yn hael i gwblhau ein harolwg a rhannu gwybodaeth am eu darpariaeth o wasanaeth gyda ni; ac i aelodau'r grŵp cyngori ar gyfer y rhaglen waith hon, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau'r sector nid-er-elw yn bennaf

Gair am yr awduron

Mae Diana Parkinson yn brif swyddog ymchwil a gwerthuso, ac mae Milly Steele yn swyddog ymchwil a gwerthuso, yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academiaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- ▶ cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- ▶ sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- ▶ galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- ▶ cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- ▶ mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- ▶ darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ▶ ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn www.csacentre.org.uk

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o ddadansoddiad o ddata a gynhaliwyd ddiwedd 2024 gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) ar wasanaethau cymorth ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, eu teuluoedd, a dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion yng Nghymru a Lloegr, ynghyd ag ymatebion i arolwg ar-lein o'r gwasanaethau hynny.

Mae'n rhoi darlun wedi'i ddiweddarau o'r ddarpariaeth o gymorth i'r bobl hyn – ac o'r heriau sy'n wynebu llawer o wasanaethau wrth iddynt geisio diwallu'r galw cynyddol am gymorth a mwy o gymhlethdod o ran anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, i gyd yng nghyd-destun mwy o ansicrwydd ariannol a chynnydd yn llwyth gwaith staff.

Gwybodaeth am yr ymchwil

Cynhaliwyd yr ymchwil hon rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024. Roedd yn defnyddio data a oedd wedi cael ei gasglu drwy ymarfer mapio cychwynnol yn 2023 ac a gyflwynwyd yn ein hadroddiad ar gyfer 2024 *Mae Cymorth yn Cyfrif*, sydd ar gael yn: www.csacentre.org.uk/support-matters/. Roeddem wedi diweddarau'r data hwn yn ddiweddarach drwy fonitro datblygiadau yn y sector, fel rhan o waith y Ganolfan CPRh i gynnal ei chyfeiriadur ar-lein o wasanaethau cymorth.

Yn yr astudiaeth newydd hon roeddem am ganolbwyntio ar gymorth oedd yn ymwneud yn benodol â cham-drin plant yn rhywiol ac a oedd ar gael i bawb. Wrth ddefnyddio'r meini prawf cynhwysiant llymch hyn, fe wnaethom ganfod 363 o wasanaethau sy'n darparu'r cymorth hwn i unrhyw un o'r grwpiau canlynol, neu bob un ohonynt:

- ▶ plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

- ▶ oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod
- ▶ rhieni ac aelodau eraill o deulu plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Gallai'r cymorth hwn fod yn berthnasol i unrhyw fath, neu bob math, o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin o fewn y teulu a'r tu allan i'r teulu, cam-drin mewn cyd-destunau ar-lein, a cham-drin yng nghyd-destun caethwasiaeth fodern, cam-fanteisio a masnachu pobl. Ar yr amod ei fod yn canolbwyntio ar lesiant neu ar fod yn therapiwtig a'i fod ar gael yn am ddim, gallai'r cymorth gwmpasu amrywiaeth o weithgareddau a dulliau gweithredu gan gynnwys therapi a chwnsela, cymorth eiriolaeth, llinellau cymorth/gwasanaethau sgwrsio, a gofal preswyl. Gallai gwasanaethau ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, neu gallai fod â chylch gwaith ehangach a oedd yn cynnwys cynnig cymorth penodol o ran cam-drin plant yn rhywiol.

Anfonwyd holiadur hunanlenwi ar-lein at y gwasanaethau hyn. Roedd yr holiadur yn canolbwyntio ar newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau ers i ni gynnal ein hymchwil flaenorol, a phrofiadau gwasanaethau o ddarparu cymorth. Roedd 124 o wasanaethau wedi llenwi'r holiadur. Mae hyn yn cynrychioli mwy na thraean y rhai a gafodd wahoddiad i gymryd rhan.

Rydym wedi nodi 363 o wasanaethau sy'n darparu cymorth arbenigol i blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, eu rhieni, a/neu ddioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion.

Y prif ganfyddiadau

Trosolwg o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu a'i argaeledd

- ▶ Mae prinder sylweddol o ddarpariaeth ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn amcangyfrif bod tua 16,500 o ddioddefwyr/goroeswyr ar gyfer pob gwasanaeth lleol/rhanbarthol y gwnaethom ei fapio.
- ▶ Gwelsom fod 23 o wasanaethau wedi cau ers i ni gynnal ein hastudiaeth gyntaf yn 2023. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain wedi bod yn cefnogi plant, a phrif gylch gwaith mwy na thraean y gwasanaethau dan sylw oedd rhoi cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Roedd naw gwasanaeth a oedd yn darparu cymorth penodol â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant wedi cau, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth o'r cymorth hwn. Roedd colli gwasanaethau'n arbennig o amlwg yn Ne Ddwyrain Lloegr ac yn Swydd Efrog a Humber.
- ▶ Gwnaethom ganfod 22 o wasanaethau nad oeddem wedi bod yn ymwybodol ohonynt yn 2023. Nid oedd yr un o'r rhain yn wasanaeth newydd, a dim ond pedwar oedd yn gweithredu yn yr ardaloedd roedd y gwasanaethau hyn yn gyfrifol amdanynt.
- ▶ O blith y 363 o wasanaethau gweithredol, roedd pump allan o chwech yn y sector nid-er-elw. Roedd gwasanaethau yn y sector statudol yn llawer llai tebygol o gefnogi dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion; roeddent yn canolbwyntio'n helaeth iawn ar gefnogi plant, ac i raddau llai ar rieni.
- ▶ Roedd pedwar o bob pump o'r gwasanaethau'n darparu cymorth i blant oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, roedd ychydig yn llai yn cefnogi dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion, ac roedd ychydig o dan hanner yn rhoi cymorth i rieni.
- ▶ Roedd y ddarpariaeth o wasanaethau'n amrywio'n fawr yn ddaearyddol o hyd, gyda'r ddarpariaeth yn arbennig o isel yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-ddwyrain Lloegr ar gyfer yr holl grwpiau y mae angen cymorth arnynt: plant, dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion, a rhieni. Roedd cymorth i blant yn arbennig o brin yn Ne-ddwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr tra roedd diffyg penodol mewn cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-ddwyrain Lloegr. Yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr y gwelwyd y prinder mwyaf o ran cymorth i rieni.
- ▶ Ychydig o wasanaethau oedd yn ymdrin yn benodol â grwpiau neilltuoel (fel merched/menywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig) neu fathau penodol o gam-drin plant yn rhywiol (fel cam-drin neu gam-fanteisio'n rhywiol ar blant mewn cyd-destunau ar-lein). Nid oedd unrhyw rai bron yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl anabl, pobl LHDTG+ neu'r rheini roedd cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu wedi effeithio arnynt.

Gwelsom fod 23 o wasanaethau wedi cau ers i ni gynnal ein hastudiaeth gyntaf yn 2023; roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain wedi bod yn cefnogi plant.

Argaeledd a hygyrchedd cymorth

- Roedd tystiolaeth o newid sylweddol yn y mathau o gymorth oedd yn cael ei ddarparu gan wasanaethau dros y ddwy flynedd flaenorol. Er hyn, nid oedd dros hanner y gwasanaethau oedd wedi ymateb i'n harolwg yn teimlo bod unrhyw newid wedi bod o ran faint o gymorth yr oedd eu gwasanaeth yn ei ddarparu. Mae hyn yn awgrymu bod gwasanaethau'n bod yn greadigol wrth geisio diwallu anghenion defnyddwyr eu gwasanaeth.
- Yn ogystal, dywedwyd bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn dod yn fwy cymhleth. Dywedodd gwasanaethau hefyd bod prinder o ran darpariaeth statudol, yn enwedig ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, yn golygu bod hyd yn oed pobl mewn trallod difrifol yn cael eu troi ymaith gan wasanaethau statudol.
- Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fod gan eu gwasanaethau restrau aros ar gyfer plant, eu rhieni, a/neu ddioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion. Roedd rhestrau aros yn gyffredin ymysg gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr sy'n blant ac yn oedolion, ac yn enwedig ar gyfer cymorth cwnsela/therapi.
- Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr yn teimlo bod llawer mwy o bobl yn aros i gael cymorth o'i gymharu â dwy flynedd yn gynharach, ac roedd bron i hanner yn teimlo bod pobl yn aros yn sylweddol hirach i gael cymorth. Roedd methu â chael cymorth amserol yn arbennig o ddifrifol ymysg dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion: dywedodd chwarter y gwasanaethau sy'n cefnogi'r grŵp hwnnw fod dros 100 o oedolion yn disgwyl i ddefnyddio eu gwasanaethau, gydag amseroedd aros o fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd yn cael eu cofnodi'n aml.
- Yn ogystal â'r effaith negyddol yr oedd gwasanaethau'n ei gweld ar iechyd meddwl a lles pobl oedd yn ceisio cael help, roedd rhestrau aros yn cael effaith sylweddol ar staff oedd yn gweithio yn y gwasanaethau hynny. Dywedwyd bod staff yn teimlo eu bod yn methu oherwydd nad oeddent yn gallu cynnig cymorth pan oedd ei angen, ac roeddent yn ymwybodol y gallai effeithio ar iechyd meddwl a lles defnyddwyr eu gwasanaeth. Dywedwyd bod prinder adnoddau a mwy o alw yn ei gwneud yn fwy anodd rheoli rhestrau aros, gyda rhai gwasanaethau'n gorfod cyfyngu ar faint o gymorth roeddent yn ei gynnig er mwyn lliniaru hyn.
- O ganlyniad, dywedodd dwy ran o dair o'r gwasanaethau mai ateb y galw oedd un o'r heriau mwyaf roeddent yn ei hwynebu.

Staffio

- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr her o recriwtio staff gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i weithio yn y maes hwn, ynghyd ag anallu i gynnig cyflogau cystadleuol. Dywedodd tri o bob pump o'r ymatebwyr bod recriwtio a/neu gadw staff yn heriol, ac roedd chwarter yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cysylltu'r heriau hyn â chyllid, gyda threfniadau cyllido tymor byr yn ei gwneud yn anodd recriwtio ac yn achosi ansicrwydd o ran swyddi, felly roedd gwasanaethau'n ei chael yn fwy anodd cynnal digon o gapasiti.
- Ochr yn ochr â hyn, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr fod llwyth gwaith staff wedi cynyddu. Roedd llawer yn cysylltu hyn â'r pwysau o geisio ateb y galw am gymorth, ynghyd â llai o adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Tynnwyd sylw'n benodol at effaith oedi yn y system cyfiawnder troseddol ar lwyth gwaith Cyngorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chyngorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant, fel y nodwyd mewn ymchwil gynharach a gynhaliwyd gan Brifysgol Coventry.

Cynaliadwyedd

- ▶ Dywedodd mwy na thri chwarter yr ymatebwyr eu bod yn wynebu ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer eu gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd yr ansicrwydd hwn yn broblem benodol i wasanaethau nid-er-elw, y rhai yn y sector trais rhywiol, a gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion. Dywedodd rhai ymatebwyr fod llai o arian ar gael ar gyfer cymorth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol; pwyntiodd eraill mai eu cyllid oedd fyrdymor ac oedd ansicr, neu nad oedd eu grantiau a'u contractau oedd ystyried chwyddiant.
- ▶ O ganlyniad, dywedodd un ymatebydd o bob pump eu bod yn wynebu cael eu cau'n gyfan gwbl neu'n rhannol neu efallai y byddai angen iddynt leihau faint o gymorth uniongyrchol y gallent ei ddarparu i bobl yr oedd cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt, oni bai eu bod yn cael cadarnhad o ddigon o gyllid o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.
- ▶ Yn gyffredinol, dangosodd ein dadansoddiad fod y ddarpariaeth o gymorth ledled Cymru a Lloegr i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt hyd yn oed yn fwy ansicr nag yr oedd wedi ymddangos yn 2023.

Casgliadau a goblygiadau

Mae ein gwaith ymchwil newydd i ddarparu cymorth arbenigol i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt wedi dangos, hyd yn oed yn gliriach na'n hastudiaeth flaenorol, y diffyg cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd. Mae wedi dangos bod y rheini sy'n ceisio cymorth yn dal i wynebu 'loteri cod post', lle mae mynediad at wasanaethau'n dibynnu ar ble maen nhw'n byw; mae llawer o wasanaethau'n cael eu gorfodi i weithredu gyda rhestrau aros. Dangoswyd bod diffyg mynediad at gymorth yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles cyffredinol dioddefwyr/goroeswyr, ac ar eu hymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

Ar ben hynny, mae'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a'u teuluoedd yn prysur gyrraedd pwynt tyngedfennol pan na fydd gwasanaethau, o bosibl, yn gallu cynnal eu gallu, sydd eisoes o dan straen, i ateb y galw cynyddol. O ran mwyafrif helaeth y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector nid-er-elw, mae'r rhan fwyaf o'r cymorth arbenigol i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt (boed hynny'n blant, yn ddioddefwyr/goroeswyr a/neu'n rhieni) wedi'i grynhoi mewn sector lle mae cynaliadwyedd gwasanaethau yn agored iawn i drefniadau comisiynu/cyllid tymor byr ac ansicr.



Dywedodd un o bob pum gwasanaeth eu bod yn wynebu cau, neu efallai y bydd angen iddynt leihau faint o gymorth uniongyrchol y gallent ei ddarparu.



Dywedodd y rhai a ymatebodd i'n harolwg nad oeddent yn gallu ymdopi â nifer y bobl a oedd yn dod i gael cymorth, a bod mwy o bobl yn cael eu cadw ar restrau aros am gyfnodau hirach. Ar yr un pryd, roeddent yn gorfod treulio amser ac adnoddau gwerthfawr yn chwilio am gyllid (na fyddent, o bosibl, yn gallu goroesi hebddo) ac yn rheoli llwyth gwaith a chpasiti staff.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae ein canfyddiadau'n tanlinellu'r angen i wasanaethau sy'n cefnogi pobl y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt gael cyllid hirdymor, hyblyg, sy'n talu am eu costau craidd ac sy'n cydnabod effaith chwyddiant ar gyflogau a chostau rhedeg.

Mae angen y cyllid hwn ar frys i ddiogelu ac i ategu'r gefnogaeth arbenigol unigryw y mae gwasanaethau'n ei darparu i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd – cefnogaeth sydd, fel y gwelsom, dan fygythiad sylweddol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymateb i'r argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, sef y dylai pob plentyn allu cael gafael ar gymorth therapiwtig arbenigol ac achrededig. Felly, mae'n amlwg y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau er mwyn cyflawni hyn.

Ar ben hynny, ni ellir sicrhau digon o gyllid tymor hir ar gyfer gwasanaethau oni bai bod awdurdodau lleol, byrddau gofal integredig a Chomisynwyr Heddlu a Throseddau yn cydnabod y galw y mae atgyfeiriadau gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol, meddygon teulu, yr heddlu a gwasanaethau iechyd meddwl statudol yn eu rhoi ar wasanaethau – ac oni bai eu bod yn gwneud cyfraniad ariannol cymesur i'r gwasanaethau hynny.

Y tu hwnt i hyn, dylai gwasanaethau allu cael gafael ar gyllid hyblyg sy'n eu galluogi i ehangu a datblygu eu darpariaeth, gan ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth newydd a phresennol sy'n newid o hyd. Dylent gael eu hariannu a'u cefnogi i ddeall y ffordd orau o ymestyn eu cyrhaeddiad i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, a/neu archwilio gwahanol fodelau cymorth er mwyn iddynt allu ymateb yn hyblyg i anghenion defnyddwyr eu gwasanaeth. Dylai strwythurau cyllido a chomisiynu newydd osgoi defnyddio dull gweithredu ymatebol, tymor byr, ac ni ddylent ganolbwyntio ar ariannu prosiectau newydd ac arloesol ar draul gwasanaethau effeithiol sydd wedi hen ennill eu plwyf.

Heb fuddsoddiad digonol a mwy o gydnabyddiaeth i'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae, ni fydd gwasanaethau cymorth i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn gallu parhau i gynnig y gofal arbenigol unigryw y mae dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd yn ei haeddu a'i angen. Fel y gwyyddom, gall cam-drin plant yn rhywiol gael effaith sylweddol, hirdymor ar unigolion – ac mae gallu cael gafael ar gymorth, boed hynny yn ystod plentynod neu fel oedolyn, yn hanfodol i leddfu'r effaith honno. Nid yw'r angen am fwy o fuddsoddi mewn cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd erioed wedi bod mor ddwys.



Dylai gwasanaethau allu cael gafael ar gyllid hyblyg sy'n eu galluogi i ehangu a datblygu eu darpariaeth yn ôl anghenion newid eu defnyddwyr gwasanaeth.



The logo features a stylized, abstract design of overlapping triangles in shades of purple, blue, and green, creating a mosaic-like effect. The text 'Centre of expertise on child sexual abuse' is written in white, bold, sans-serif font, positioned over the lower part of the graphic.

Centre of expertise on child sexual abuse

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r
adroddiad cyflawn yn:
www.csacentre.org.uk/support-matters/

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio
actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre.org.uk | [X](https://www.csacentre.org.uk)@csacentre
www.csacentre.org.uk